

Trin rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog drwy dorri'r wain bilennog er mwyn gwahanu'r rhydveli a'r wythïen

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir torri'r wain bilennog er mwyn gwahanu'r rhydveli a'r wythïen yn y GIG i drin pobl sydd â rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog (neu BRVO yn fyr). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog (BRVO) na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar hynny.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd sy'n dweud pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw.

Am y rheswm hwn, mae NICE wedi dweud mai dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil (a elwir hefyd yn dreial clinigol) y dylid cynnig y driniaeth hon. Dylai'r ymchwil edrych ar ba gleifion sydd fwyaf addas ar gyfer y driniaeth, amseru'r driniaeth mewn perthynas â datblygiad y symptomau a pha fathau eraill o driniaeth a ddefnyddir.

Efallai y bydd NICE yn ystyried y driniaeth hon eto os daw rhagor o wybodaeth i law.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog.

Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Trin rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog drwy dorri'r wain bilennog er mwyn gwahanu'r rhydweli a'r wythïen

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'toriad yn y wain bilennog lle mae'r wythïen a'r rhydweli yn croesi ar gyfer rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch offthalmolegydd i gael disgrifiad llawn.

Rhwystyr yn y wythïen retinol ganghennog yw'r term meddygol am rwystyr yn un o'r gwythiennau yng nghefn y llygad sy'n draenio gwaed o'r retina (yr ardal sy'n sensitif i olau yn y llygad). Fel arfer, bydd hyn yn digwydd mewn man lle mae'r rhydweli a'r wythïen yn croesi, lle maent yn rhannu'r un gorchudd pilennog allanol (neu wain). Gall pobl sydd â rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog sylwi eu bod yn cael problemau gweld yn iawn.

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 211

Fel arfer bydd offthalmolegydd yn cadw golwg ar y cyflwr a bydd y driniaeth yn dibynnu ar ffactorau megis sut y mae'n datblygu ac i ba raddau yr effeithir ar y golwg. Ymhlith y triniaethau presennol mae triniaeth laser, chwistrellu meddyginiaethau i'r llygad neu lawdriniaeth.

Gellir cyflawni'r driniaeth gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol neu leol. Fel arfer cyflawnir llawdriniaeth i dynnu hylif o'r tu mewn i'r llygad (a elwir hefyd yn fitrectomi) cyn y caiff y rhydweli a'r wythïen eu gwahanu. Caiff y rhydweli a'r wythïen eu gwahanu oddi wrth ei gilydd drwy ddefnyddio llafn bach i dorri'r wain bilennog, fel y gellir codi'r rhydweli oddi ar y wythïen. Nod y driniaeth yw gwella llif y gwaed i'r llygad.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich meddyg gynnig y driniaeth hon i chi (a elwir hefyd yn dreial clinigol).

Argymhellodd NICE y dylid casglu rhai manylion am bob claf sy'n cael y driniaeth hon yn y DU. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a all manylion eich triniaeth gael eu defnyddio i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o chwith?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 7 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 40 o gleifion, gwellodd golwg y rheini a gafodd eu trin â phigiad i mewn i'r llygad yn fwy na'r cleifion a gafodd dorri'r wain bilennog, pan aseswyd hwy fis yn ddiweddarach. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth o ran gwelliant rhwng y grwpiau yn ystod asesiadau diweddarach a gynhaliwyd dros gyfnod o chwe mis. Nododd astudiaeth o 36 o gleifion a gafodd naill ai doriad yn y wain bilennog neu fitrectomi fod y ddau grŵp yn gweld yn well ar ôl y triniaethau, ond nad oedd gwahaniaeth rhyngddynt o ran faint yr oeddent wedi gwella ar ôl 31 mis. Mewn astudiaeth o 68 o gleifion, nid oedd newid sylweddol yng ngolwg y cleifion a gafodd doriad yn y wain bilennog a'r rheini a ddewisodd beidio â chael llawdriniaeth, ar ôl chwe wythnos. Nododd astudiaeth arall o 36 o gleifion nad oedd gwahaniaeth mawr rhwng golwg y cleifion a gafodd doriad yn y wain bilennog a'r rheini a gafodd fitrectomi, flwyddyn yn ddiweddarach. Nododd astudiaeth o 40 o gleifion fod golwg y rheini a gafodd doriad yn y wain bilennog wedi gwella fwy na'r rheini na chawsant lawdriniaeth o gwbl (cafodd rhai ohonynt driniaeth laser). Aseswyd y cleifion ar ôl 14 mis a 19 mis, yn y drefn honno.

Defnyddiodd un astudiaeth doriad yn y wain bilennog i drin 60 o gleifion yr oedd ganddynt rwystrïad yn y wythïen retinol ganghennog ac oedema macwlaidd (chwydd yn rhan bwysicaf y retina er mwyn gallu gweld). Erbyn rhwng 12 ac 16 o fisoedd yn ddiweddarach, roedd yr oedema macwlaidd wedi dychwelyd mewn dau glaf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 211

clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai prif ganlyniadau'r llwyddiant yw gwella llif y gwaed yn y llygad, datrys yr oedema macwlaidd a/neu leihau'r trwch macwlaidd, a gwella'r sgôr craffter golwg a gywirwyd orau.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 36 o gleifion, cafodd un claf allan o'r 18 a gafodd y driniaeth toriad yn y wain bilennog waedu yn ystod y driniaeth oherwydd niwed i'r pibellau gwaed sy'n arwain i'r retina. Mewn astudiaeth arall cafodd dau allan o 20 o gleifion waedu i mewn i'r hylif ym mhelen y llygad a wellodd ar ei ben ei hun.

Datblygodd nifer fach o gleifion gataractau (lens y llygad yn cymylu). Roedd nifer y cleifion yr effeithiwyd arnynt a'r cynnydd ar gyfartaledd yn nifrifoldeb y cataractau yn debyg yn y rheini a gafodd doriad yn y wain bilennog a'r rheini a gafodd fitrectomi.

Nododd astudiaeth o gleifion a gafodd naill ai doriad yn y wain bilennog neu ddim llawdriniaeth fod golwg rhai cleifion wedi dirywio ar ôl chwe wythnos (un allan o 43 o gleifion a naw allan o 25 o gleifion yn y drefn honno).

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai problemau gynnwys gwaedu neu'r retina'n dod yn rhydd. Mewn egwyddor, gallai problemau eraill gynnwys y rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog yn dychwelyd, llid yn y llygad neu glawcoma. Yn ogystal, gallai toriad yn y wain bilennog a ddefnyddir ar y cyd â fitrectomi achosi risgiau ychwanegol heb fudd ychwanegol.

Rhagor o wybodaeth am rwystriad yn y wythïen retinol ganghennog

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar broblemau'r llygaid, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'thoriad yn y wain bilennog lle mae'r wythïen a'r rhydweli yn croesi ar gyfer rhwystriad yn y wythïen retinol ganghennog'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn sydd wedi'u hanelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG211

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8113-7

N2168 1P Mar 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.